ATODLEN 3

Monitro sylweddau ymbelydrol

**Tritiwm**

**2.**—(1) Mewn perthynas â'r paramedr tritiwm yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol, rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyflawni gwaith monitro pan fo ffynhonnell anthropogenig o dritiwm neu radioniwclidau artiffisial eraill yn bresennol yn y dalgylch, ac ni ellir dangos ar sail rhaglenni gwyliadwriaeth neu ymchwiliadau eraill, gan gynnwys unrhyw asesiad risg a gyflawnir yn unol â rheoliad 6, fod lefel y tritiwm yn is na'r gwerth paramedrig a restrir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol; a

(b) cynnal ymchwiliad mewn perthynas â phresenoldeb radioniwclidau artiffisial eraill os yw'r crynodiad o dritiwm yn uwch na'r gwerth paramedrig a restrir yn y tabl paramedrau sylweddau ymbelydrol.

(2) Pan fo monitro yn ofynnol o dan is-baragraff (1)—

(a) rhaid cynnal y gwaith monitro mor aml ag a nodir ar gyfer monitro'r paramedrau Grŵp B yn Nhabl 3 yn Rhan 2 o Atodlen 2; neu

(b) rhaid cynnal y gwaith monitro (yn achos cyflenwad dŵr preifat sy'n dod o fewn cwmpas rheoliad 11(1)) o leiaf bob 5 mlynedd neu'n amlach os yw'r asesiad risg y cyfeirir ato o dan is-baragraff (1)(a) yn dangos bod hynny'n angenrheidiol.